**Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr ABERAERON a gynhaliwyd o bell drwy fideo-gynadledda ddydd Iau, 30 Hydref 2025**

**Cynrychiolaeth Cyngor Sir Ceredigion:** y Cynghorydd Shelly Childs (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Matthew Vaux

**Swyddogion yn bresennol:** Owen Morgan, Katy Spain, Robyn Beresford, Dana Jones

**Defnyddwyr Harbwr**: Jonathan Price Jones, David Nicholson, Martin Wood, Steve Webb, Julian Driver

(5.30pm – 6:25pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Dim.

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2025**
   CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion cyfarfod 27 March 2025 fel cofnod cywir.

   **Materion yn codi**
   Dim.

3. **Diweddariad ar Wasanaethau'r Harbwr**
   - Roedd dau gynorthwyydd tymhorol newydd (Chloe Roberts, Eve Rees) wedi ymuno â'r tîm; mae'n bosibl y bydd y ddwy ohonyn nhw'n dychwelyd y flwyddyn nesaf.
   - Penodwyd Robyn Beresford yn Arweinydd Gwaith Harbwr yn dilyn ymadawiad Chase Anders.
   - Daeth y cynllun amddiffyn yr arfordir i ben; rhannwyd gwybodaeth drwy gylchlythyr Calm Waters.
   - Adolygwyd y Cod Diogelwch Porthladdoedd a Chyfleusterau Morol gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ym mis Ebrill; nod y Cyngor yw cydymffurfio'n llawn erbyn Ionawr 2026.
   - Atgoffwyd defnyddwyr i ddefnyddio'r radio Amledd Uchel Iawn (VHF) yn briodol; adroddwyd am achosion o iaith amhriodol mewn mannau eraill.

4. **Rhestr Aros Angori**
   Adroddwyd nad oedd rhestr aros gyfredol ar gyfer harbwr Aberaeron. Roedd dau gwch ar restr aros Cei Newydd wedi angori dros dro yn Aberaeron ac wedi'u hychwanegu at y rhestr symudwyr ar gyfer argaeledd yng Nghei Newydd.

5. **Cynnal a Chadw Cyffredinol a Glendid**
   Adroddodd Rheolwr yr Harbwr fod malurion a boncyffion wedi'u tynnu o'r harbwr ym mis Mawrth cyn dechrau'r tymor; mae monitro parhaus yn cael ei wneud ar y cyd â'r adran ecoleg a'r tîm cyfreithiol ynghylch gwaith tynnu yn y dyfodol.

Mynegwyd pryderon ynghylch oedi wrth symud malurion yn ystod digwyddiadau, gan fod yn rhaid i ddefnyddwyr eu clirio eu hunain er mwyn atal difrod i gychod a cholli eu cychod yn unol â’u polisïau yswiriant. Mewn ymateb, nododd Swyddogion fod malurion, gan gynnwys boncyffion mawr, yn cael eu monitro a’u tynnu yn ôl yr angen; mae’r gwaith tynnu yn dibynnu ar lefel y risg ac argaeledd contractwyr. Gan nad oes presenoldeb staff 24/7 yn yr harbwr, dylid rhoi gwybod am faterion drwy’r system ‘Clic’, e-bost neu ffôn er mwyn gallu ymateb yn brydlon. Adroddwyd bod angen defnyddio contractwyr ar gyfer symud malurion mawr gan nad oes gan staff mewnol yr offer na’r hyfforddiant angenrheidiol; mae amser ymateb contractwyr yn amrywio oherwydd ymrwymiadau eraill, ond rhoddir blaenoriaeth i faterion diogelwch brys. Nodwyd bod fframwaith eisoes yn bodoli ar gyfer tynnu malurion, a bod contractwr lleol wedi’i benodi. Adroddodd Swyddogion hefyd nad oedd yr awdurdod harbwr yn gallu cymeradwyo tynnu malurion gan Ddefnyddwyr yr Harbwr. Nododd un defnyddiwr harbwr fod materion cyfathrebu heb eu datrys (er enghraifft, dim ymateb i e-bost a anfonwyd dwy flynedd yn ôl ar fater tebyg).

Gwnaed cais am gofnodi cofnodion yn gywir, yn enwedig mewn perthynas â pheryglon a digwyddiadau mordwyo (e.e. llongddrylliad cwch hwylio ym mis Mehefin y llynedd a honnodd JPJ ei fod oherwydd bod sianeli mordwyo wedi cael eu marcio’n anghywir) gan nad oedd y cais hwn wedi’i gynnwys yng nghofnodion Mawrth 2024. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei nodi, er y cynghorwyd JPJ hefyd nad yw cofnodion yn gofnod gair am air o bopeth a ddywedir gan bawb, ond yn gofnod cyffredinol o’r materion a drafodwyd, ac nad oedd digon o dystiolaeth i ategu’r datganiad a wnaed.

**6. Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr a Rheolwr yr Harbwr**

- Codwyd pryderon ynglŷn â'r twmpath heb ei farcio a diffyg marciau diogelwch wrth fynedfa'r harbwr. Adroddodd Swyddogion fod croniad o gerrig a malurion wedi’i nodi yn dilyn y gwaith; gallai fod problem dylunio posibl o ran y morglawdd, a oedd angen asesiad pellach. Nododd Rheolwr yr Harbwr nad oedd hyn yn cael ei ystyried yn berygl ar hyn o bryd oherwydd lefel y twmpath; fodd bynnag, byddai’n parhau i’w fonitro ac yn dosbarthu hysbysiad i forwyr os byddai angen.
- Nodwyd nad oedd goleuadau ar bolion mynediad coch a gwyrdd; dim ond pennau’r pier oedd wedi’u goleuo, gan godi pryderon diogelwch yn ystod y nos. Nododd Rheolwr yr Harbwr, yn ei farn ef, fod digon o olau ar gael a bod y risgiau diogelwch yn isel.
- Adroddodd Rheolwr yr Harbwr fod cynlluniau carthu yn dibynnu ar sicrwydd cyfreithiol ac ecolegol; mae monitro’n parhau ac nid oes amserlen benodol wedi’i gosod hyd yma. Byddai Doc Bach hefyd yn cael ei gynnwys yn y cynlluniau carthu, ynghyd â symud cerrig ger Pen Cei. Adroddwyd bod cyllideb wedi’i dyrannu ar gyfer y gwaith carthu hwn, gan gynnwys yr opsiwn i wirio cadwyni angorfeydd.
- Mynegwyd pryderon ynghylch gostyngiad sylweddol yn y defnydd o’r harbwr a’r incwm o’i gymharu â blynyddoedd blaenorol, yn dilyn cais Rhyddid Gwybodaeth gan ddefnyddiwr harbwr ynghylch casglu ffioedd lansio dyddiol. Nododd y Cynghorydd Elizabeth Evans y byddai’n codi

DRAFT

hyn mewn cyfarfodydd gweithdy’r gyllideb a fyddai’n cael eu cynnal yn ystod yr wythnosau nesaf.

- Gwnaed cais i gynnal y cyfarfodydd wyneb yn wyneb eto, a nodwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried.
- Mynegwyd pryderon hefyd am y rhodfa newydd

DRAFT